# Deuparth Ffordd Ei Gwybod

# Polisi Tai Bach

**The Governing Body has adopted this Policy.**

Agreed: Tachwedd 2025

Signed: ____________________________________________

**Ms Julie Barton**

**Chair of the Governing Body**

To be reviewed: Tachwedd 2028

## YSGOL GARTH OLWG

**Polisi Tai Bach**

**Nod:**

- Darparu cyfleusterau toiledau o ansawdd dda i'n disgyblion
- Galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r toiledau er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.

**Rhesymeg:**

Pam ein bod yn ysgrifennu'r polisi hwn?

- Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein dysgwyr ac rydyn ni am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.

**<u>Amcanion: Beth ydyn ni am ei gyflawni?</u>**

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan reolwyr yr ysgol, staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.
- Sicrhau bod y toiledau'n hygyrch i bawb.
- Sicrhau bod toiledau neillrywiol pwrpasol ar gael i bob disgybl
- Sicrhau bod y toiledau ar agor i ddysgwyr trwy gydol y dydd. Er byddwn yn annog y disgyblion i ddefnyddio tai bach yn ystod egwyl a chinio byddwn yn sicrhau bod toiledau ar agor i ddisgyblion yn ystod y dydd, os oes angen.
- I ddisgyblion blwyddyn 7 ac uwch er mwyn lleihau ar angen y disgyblion i adael gwersi er mwyn defnyddio toiledau byddwn yn darparu digon o gyfleoedd yn ystod y dydd i ddefnyddio'r tai bach (egwyl a chinio). Er hyn, rydym yn cydnabod bod rhai disgyblion angen mynediad at y tai bach yn ystod gwersi oherwydd rhesymau meddygol neu breifatrwydd a byddwn yn monitro ac yn cydlynu hwn.

- Sicrhau bod tŷ bach agored i bawb yn yr ysgol i unrhyw ddisgybl sy'n dymuno ei ddefnyddio.

- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anghenion arbennig, gyda goleuadau, gosodiadau a ffitiadau digonol.

- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion pob dysgwr o gymunedau ethnig a chrefyddol, a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.

- Sicrhau bod bob amser gan bob ardal doiledau gyflenwad a gynhelir yn briodol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau ym mhob ciwbicl, sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.

- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ym mhob un o giwbiclau'r merched (ar gyfer merched wyth oed a hŷn) yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwylio ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.

- Gosod cyflenwadau dŵr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol, ac nid mewn ardaloedd toiled.

- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglyn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r dysgwyr ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio ag unrhyw broblemau a amlygir gan y dysgwyr yn brydlon.

- Annog dysgwyr i barchu'r toiledau a'i gilydd (drwy gyngor yr ysgol, mewn gwersi ABCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth, gwasanaethau ac annog dysgwyr i barchu'r toiledau.

- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

- Darparu ardaloedd cymdeithasol dan do er mwyn atal yr arfer o ddefnyddio toiledau at ddibenion o'r fath.

**Aim:**

• To provide good quality toilet facilities for our pupils.

• Enable learners to use the toilets to promote the health, wellbeing and learning opportunities of all learners.

**Rationale: Why are we writing this policy?**

• The school recognises that well-maintained toilet facilities, where learners feel comfortable and safe, and available to them throughout the school day, are essential for health, wellbeing and learning.

• We value and respect our learners and want them to have access to good provision and good practice.

**Objectives: What do we want to achieve?**

• Ensure that this policy is accepted and maintained by school managers, staff, learners, governors, site manager, cleaning and ancillary staff.

•Ensure that the toilets are accessible to all.

•Ensure that there are dedicated unisex toilets accessible to all pupils

• Ensure that the toilets are open to learners throughout the day. We will encourage learners to use the toilets during breaks and lunch, but we will ensure that toilets are open to pupils during the day, if required.

•To reduce the need for pupils in Year 7 and older to leave lessons to use the toilets we will provide plenty of opportunities during the day to use the toilets (break and lunch). However, we recognise that some pupils need access to the toilets during lessons for medical or privacy reasons and will monitor and co-ordinate this.

• Ensure that there is an open toilet for everyone in the school for any pupil who wishes to use it.

•Ensure that the toilets and bathrooms are suitable for the range of expected users, including learners with disabilities and special needs, with adequate lighting, fixtures and fittings.

• Ensure that the toilets and bathrooms meet the needs of all learners from ethnic and religious communities, and ensure that these needs are met in a sensitive, informed and appropriate way.

• Ensure that all toilet areas always have a properly maintained supply of hot and cold water, liquid soap, hand drying facilities and toilet paper in all cubicles, conveniently placed.

• Ensure that sanitary products disposal units in each of the women's cubicles and the toilet for all (for girls aged eight and over) are serviced regularly

• Operate and maintain an effective system of cleaning, supervision and supervision of toilets to ensure an appropriate standard of provision and cleanliness throughout the school day.

• Install drinking water supplies in safe and appropriate locations, not in toilet areas.

• Seek the views of the whole school community in relation to any concerns about toilet provision and access issues (ensuring a user-friendly procedure for reporting weaknesses or problems) and respond seriously and deal with any problems highlighted by the learners promptly.

• Encourage learners to respect each other's toilets (through the school council, in PSE lessons, during discussion periods with the class teacher, and encourage learners to continue toileting.

• Include issues relating to the regular management of toilets in all appropriate meetings of the school council, staff, parents / carers and governors.

• Provision of indoor social areas to prevent the use of toilets for such purposes.